

## **Argyfwng Coronafeirws (COVID-19) Arweiniad ar gyfer Darpariaeth Cludiant Ysgol o 1 Medi 2021**

Mae'r arweiniad hwn wedi'i adolygu ar ôl i Lywodraeth Cymru lacio'r cyfyngiadau i lefel rhybudd sero ac yn unol â'r canllawiau swyddogol diweddaraf gan Lywodraeth Cymru (14/7/21).

Mae'r cynlluniau a amlinellir isod yn nodi sut bydd cludiant ysgol yn Abertawe'n ailgychwyn a chaiff y cynlluniau hyn eu diweddarau'n amodol ar arweiniad pellach gan y llywodraeth. Dylai holl gontractwyr/weithredwyr cludiant ysgol y cyngor ddarllen a mabwysiadau'r arweiniad hwn.

Dylai gweithredwyr fod yn ymwybodol o gyngor cyffredinol y Llywodraeth sy'n nodi y dylem gadw'n pellter oddi wrth bobl y tu allan i'n haelwydydd. Mae lechyd Cyhoeddus Cymru yn dweud mai'r peth allweddol yw osgoi bod yn rhy agos i bobl eraill am fwy na chyfnod byr o amser, cymaint ag y gallwch chi.

Maen nhw hefyd yn dweud, os oes angen i chi fod yn agos i bobl eraill, dylech osgoi cyswllt corfforol ac wynebu oddi wrth bobl eraill, a chadw'r amser rydych chi'n ei dreulio'n agos i bobl eraill mor fyr â phosib. Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'r arwynebau rydych chi neu eraill yn eu cyffwrdd.

O ran gwasanaethau cludiant i'r ysgol, ni fydd y gofyniad cadw pellter cymdeithasol yn berthnasol i blant sy'n teithio ar gludiant penodedig o'r cartref i'r ysgol. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod hyn yn briodol am y rhesymau canlynol:

- o mae'r risg gyffredinol o COVID-19 yn isel iawn i ddysgwyr
- o nid ydynt yn cymysgu â'r cyhoedd ar y teithiau hyn
- o mae cludiant dynodedig o'r cartref i'r ysgol yn aml yn cludo'r un grŵp o ddysgwyr yn rheolaidd, ac mae'n bosib y bydd y dysgwyr hynny gyda'i gilydd yn yr ysgol
- o mae natur rhagweladwy gwasanaethau cludiant ysgol yn hwyluso cynllunio fel y gellir rhoi mesurau amddiffynnol ar waith

Lle bo modd, dylid cadw pellter cymdeithasol o 2m rhwng oedolion a phlant.

Mae caniatáu lle rhwng teithwyr neu grwpiau o deithwyr yn ddefnyddiol o hyd lle bo'n bosib, ond oherwydd nifer y disgyblion sy'n cael eu cludo mae'n bosib na fydd hyn yn ymarferol mewn llawer o amgylchiadau. Lle na fydd hyn yn bosib, daw mesurau rheoli eraill yn bwysicach.

O ran gwisgo gorchuddion wyneb ar wasanaethau cludiant ysgol penodedig, dywed canllawiau Llywodraeth Cymru, mewn sefyllfaoedd lle mae'n debygol y bydd gorlenwi neu grwpiau blwyddyn yn cymysgu'n anochel, y dylid cynnal asesiadau risg i werthuso

cydbwysedd y buddion a'r niwed a geir o wisgo gorchuddion wyneb i leihau trosglwyddiad COVID-19.

Ar sail asesiad risg gwasanaethau Cludiant i'r Ysgol y cyngor, rhoddir y canlynol ar waith:

- 1: Bydd angen i ddisgyblion ym mlwyddyn 7 ac uwch wisgo gorchuddion wyneb ar wasanaethau cludiant ysgol pwrpasol.
- 2: Ni fydd angen i ddisgyblion hyd at flwyddyn 7 wisgo gorchuddion wyneb ond gallant wneud hynny os dymunant.
- 3: Ni fydd angen i ddisgyblion ag eithriadau meddygol wisgo gorchuddion wyneb.
- 4: Bydd pob gyrrwr a Chynorthwydd Teithwyr yn gwisgo gorchuddion wyneb.
- 5: Bydd angen i ddisgyblion 11 oed ac yn hŷn sy'n teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus wisgo gorchuddion wyneb i gydymffurfio â Chanllawiau Llywodraeth Cymru.
- 6: Bydd disgyblion ag ADY dros 11 oed yn cael eu hasesu ar sail unigol i weld a fydd gwisgo gorchuddion wyneb yn briodol ar eu cyfer.
7. Bydd disgwyl i ddisgyblion ddarparu eu gorchuddion wyneb eu hunain a'u gwaredu'n briodol.

Gellir dod o hyd i Ganllawiau Llywodraeth Cymru i'ch helpu i baratoi at ailddechrau gwasanaethau cludiant ysgol trwy ddefnyddio'r ddolen isod:

<https://llyw.cymru/canllawiau-gweithredol-i-ysgolion-lleoliadau-html>

## Arweiniad Cyffredinol i Weithredwyr Cludiant Ysgol parthed Coronafeirws (COVID-19)

Yn ogystal â'r ddolen uchod, dylai gweithredwyr cludiant ysgol ddilyn cyngor cyffredinol ar COVID-19 gan y llywodraeth yn.

Mae diogelwch staff, disgyblion a'r cyhoedd o'r pwys mwyaf.

Dylai gweithredwyr fod yn ymwybodol o gyngor gan y Llywodraeth ar gyfer busnesau yn :

<https://llyw.cymru/lefel-rhybudd-0-canllawiau-i-gyflogwyr-busnesau-sefydliadau>

Ni ddylai gyrwyr, Cynorthwyrwyr Teithwyr a disgyblion deithio ar drafnidiaeth os ydynt yn teimlo'n sâl, yn enwedig os oes ganddynt symptomau Coronafeirws (COVID-19) sy'n cynnwys peswch newydd, parhaus, tymheredd uchel, neu os ydynt yn colli synnwyr blasu neu arogl. Os oes ganddynt symptomau COVID19 dylent hunanynysu gartref yn unol ag arweiniad lechyd Cyhoeddus Cymru a'r GIG a gwneud cais am brawf PCR yn GOV.UK neu ffonio 119. Ar lefel rhybudd sero, nid oes rhaid i'r rheini sydd wedi'u brechu'n llawn hunanynysu oni bai eu bod hwy eu hunain yn dechrau dangos symptomau COVID-19

Dylid dilyn cyngor penodol y llywodraeth ar COVID-19 i staff yn y sector trafndiaeth, a gellir dod o hyd iddo yn y ddolen hon:

<https://llyw.cymru/drafnidiaeth-gyhoeddus-cerdyn-gweithredu-mesurau-rhesymol-posibl-coronafeirws-html>

<https://llyw.cymru/canllawiau-ar-dacsis-cherbydau-hurio-preifat>

Mae'r adrannau isod yn nodi gofynion a gweithdrefnau penodol Cyngor Abertawe y dylid eu dilyn wrth ddarparu'r canlynol:

- **Atodiad A** - Gwasanaethau Cludiant Ysgol i Ddisgyblion Prif Ffrwd
- **Atodiad B** - Gwasanaethau Cludiant Ysgol i Ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (Anghenion Arbennig)

Mae'r gweithdrefnau hyn wedi'u datblygu'n seiliedig ar ganllawiau diweddaraf Llywodraeth Cymru, a chynhaliwyd yr asesiadau risg gan Swyddogion lechyd a Diogelwch a Chludiant y cyngor.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â Thîm Cludiant ysgol y cyngor drwy:

E-bost : [Cludiant.ysgol@abertawe.gov.uk](mailto:Cludiant.ysgol@abertawe.gov.uk)

Ffôn: 01792 636347/636348 (cludiant ar gyfer disgyblion prif ffrwd)

01792 636328/636593 (cludiant ar gyfer disgyblion ADY)

**Canllaw i Weithredwyr - Gwasanaethau Cludiant Ysgol i Ddisgyblion Prif Ffrwd**

**Mesurau i osgoi ymlediad COVID- 19**

- Bydd y contractwr cludiant yn sicrhau bod ei staff yn ymwybodol o'r canlynol:
  - Symptomau COVID-19 ac i gadw llygad am y symptomau hynny a rhai eraill
  - Os oes ganddynt symptomau COVID19 dylent hunanynysu gartref yn unol ag arweiniad lechyd Cyhoeddus Cymru a'r GIG a gwneud cais am brawf PCR yn GOV.UK neu ffonio 119
  - Ar lefel rhybudd sero, nid oes rhaid i'r rheini sydd wedi'u brechu'n llawn hunanynysu oni bai eu bod hwy eu hunain yn dechrau dangos symptomau COVID-19
  - Os dânt i gysylltiad â rhywun sydd wedi datblygu symptomau COVID yn yr ysgol/sefydliad addysg neu ar gludiant o'r cartref i'r ysgol, nid oes angen iddynt fynd adref i hunanynysu oni bai eu bod yn datblygu symptomau eu hunain (ac os felly, dylent drefnu prawf) neu os yw'r person symptomatig yn profi'n bositif neu os gofynnwyd iddynt wneud hynny drwy wasanaeth Profi, Orlhain, Diogelu'r GIG
  - Cadw pellter cymdeithasol lle bo'n bosib ar bob adeg rhyngddyn nhw a theithwyr eraill.
  - Trefniadau gweithdrefnol presennol mewn perthynas â COVID-19 i gludo disgyblion yn ddiogel yn ôl ac ymlaen i'r ysgol
  - Unrhyw ddiweddariadau perthnasol yng nghanllawiau'r llywodraeth neu ICC.
  - Dylid cyfeirio unrhyw bryderon neu ymholiadau gan staff ynghylch cludiant i ddisgyblion i'w reolwr llinell. Mae hyn yn galluogi rheolwyr i adolygu eu hasesiadau risg a rhoi unrhyw newidiadau ar waith i reoli mesurau lle bo angen.
  - Bydd angen i bob aelod o staff olchi ei ddwylo'n unol â'r arweiniad ar olchi dwylo a gyhoeddwyd eisoes gan ICC, h.y. golchi dwylo am o leiaf 20 eiliad.
- Bydd angen cynnal eu hasesiadau risg eu hunain ac ymgynghori â staff a'r Tîm Cludiant Ysgol er mwyn nodi pob perygl a risg rhagweladwy posib a bydd angen rhoi mesurau rheoli addas ar waith i leihau'r risg o ledaenu COVID-19
- Lle bo'n bosib, sicrhewch fod yr un gyrrwr a chynorthwywyr teithwyr (yr un tîm) yn gweithio gyda'i gilydd yn hytrach na chymysgu â thimau eraill.
- Yr unig berson a all eistedd yng nghanllaw y gyrrwr fydd y gyrrwr.
- Rhaid i yrwyr a chynorthwywyr teithwyr wisgo gorchudd wyneb pan fyddant yn y cerbyd ac o'i gwmpas.
- Bydd angen ystyried rhoi sgriniau o fewn coetsis/bysus i ddarparu amddiffyniad ychwanegol i'r gyrrwr.
- Bydd y contractwr cludiant yn darparu'r canlynol i'w staff:
  - Digon o hylif diheintio dwylo yn y cerbyd i'r staff ei ddefnyddio cyn, yn ystod ac ar ôl bob taith. Bydd angen ei ddefnyddio hefyd wrth gyflawni tasgau fel helpu disgyblion i ddod i mewn i'r cerbyd neu drafod eiddo disgyblion.
  - Cyflenwad o fygydau wyneb ar gyfer y gyrrwr a'r cynorthwy-ydd teithwyr
  - Cit cyfarpar diogelu personol (PPE) ar gyfer argyfwng (menig tafladwy; ffedog dafladwy; mygydau meddygol sy'n gwrthsefyll hylif (FRSM)) i staff eu defnyddio, e.e. cymorth cyntaf; os bydd disgybl yn sâl ar y bws

- Bydd angen rhoi diweddariadau i'r Tîm Cludiant Ysgol am unrhyw newidiadau i'w asesiad risg COVID-19 a allai effeithio ar ddarpariaeth cludiant i ddisgyblion.
  - Bydd angen sicrhau bod lle i storio gwastraff PPE yn y cerbyd. e.e. sachau du. Bydd angen cael gwared ar PPE yng nghanolfan gludiant y contractwyr i reoli'r cyfnod dal 72 awr.
  - Bydd angen cadw cofnod/amserlen ysgrifenedig o'r gyrrwyr/cynorthwywyr teithwyr a'u cerbyd neilltuedig at ddibenion profi, olrhain a diogelu.

### **a. Wrth fannau codi a gollwng**

#### Ar gyfer gwasanaethau â gyrrwr yn unig:

- Bydd y gyrrwr yn aros yn ei sedd wrth godi a gollwng disgyblion.
- Bydd y gyrrwr yn aros yn ei sedd pan fydd yn gwirio cardiau bws y disgyblion pan fyddant yn dod i mewn i'r cerbyd.
- Bydd yn caniatáu i ddisgyblion awdurdodedig yn unig deithio yn y cerbyd. Dim ond teithwyr â cherdyn bws sy'n ddilys ar gyfer y daith fydd yn cael teithio fel bod manylion cywir y disgyblion sy'n teithio ar gael at ddibenion Profi, Olrhain a Diogelu.
- Bydd angen i ddisgyblion ym mlwyddyn 7 ac uwch wisgo gorchuddion wyneb ar wasanaethau cludiant ysgol pwrpasol.
- Pupils up to Year 7 will not need to wear face coverings but may do so if they wish.
- Ni fydd angen i ddisgyblion ag eithriadau meddygol wisgo gorchuddion wyneb. Bydd y gyrrwr yn cofnodi manylion y disgyblion hynny ym mlwyddyn 7 ac uwch nad ydynt yn gwisgo mygydau (oherwydd eu bod yn dweud eu bod wedi'u heithrio) ac yn rhannu'r wybodaeth hon â'r ysgol wrth gyrraedd fel y gellir cadarnhau hyn.
- Bydd angen i deithwyr gau eu gwregysau eu hunain a rhaid i'r gyrrwr geisio cadarnhad ganddynt, ar lafar, eu bod wedi'u cau.
- Os bydd angen i'r gyrrwr adael ei sedd, bydd angen sicrhau ei fod yn cadw pellter cymdeithasol lle bo'n bosib. Lle na fydd hynny'n bosib, er enghraifft wrth i ddisgybl ddod i mewn i'r cerbyd neu ei adael, sicrhewch eich bod yn cael cyn lleied o gyswllt â phosib a gwisgwch y PPE priodol.
- Os yw rhiant neu berson arall yn dod tuag at y cerbyd, trafodwch y mater ond cadwch bellter cymdeithasol ar bob adeg. Os yw'r unigolyn hwnnw'n camu i'r gwagle, cymerwch gam i ffwrdd ac atgoffwch y person yn garedig i gadw pellter.

#### Ar gyfer gwasanaethau cynorthwywyr gyrrwyr/teithwyr:

- Dylai'r gyrrwr a'r cynorthwy-ydd teithwyr gadw pellter cymdeithasol rhyngddynt p'un a ydynt ar y cerbyd neu beidio.
- Ar bob pwynt, bydd y cynorthwy-ydd teithwyr yn rheoli'r disgyblion wrth iddynt ddod ar y bws a'i adael, gan gadw pellter cymdeithasol a gofyn i'r disgyblion eistedd yn ardal ddynodedig yn y cerbyd.
- Yn ystod y daith, bydd y cynorthwy-ydd teithwyr monitro ymddygiad y disgyblion o'i sedd.
- Bydd angen i deithwyr gau eu gwregysau eu hunain a rhaid i'r gyrrwr/cynorthwy-ydd teithwyr geisio cadarnhad ganddynt, ar lafar, eu bod wedi'u cau.
- Os yw rhiant neu berson arall yn dod tuag at y cerbyd, trafodwch y mater ond cadwch bellter cymdeithasol ar bob adeg. Os yw'r unigolyn hwnnw'n camu i'r gwagle, cymerwch gam i ffwrdd ac atgoffwch y person yn garedig i gadw pellter.

## **b. Ar y daith yn ôl ac ymlaen i'r ysgol**

- Dylid cadw pellter cymdeithasol gydag unrhyw ryngweithio rhwng staff y cerbyd a disgyblion yn ystod y daith. Lle na fydd hynny'n bosib, sicrhewch eich bod yn cael cyn lleied o gyswllt â phosib a gwisgwch y PPE priodol.
- Lle nad oes sgrîn ddiogelu wedi'i gosod ar gyfer y gyrrwr, bydd angen sicrhau na ddefnyddir y seddi i deithwyr y tu ôl i'r gyrrwr lle bo'n bosib. Bydd hyn yn galluogi'r gyrrwr i gynnal pellter cymdeithasol rhyngddo ef a'r teithwyr. Lle na fydd hynny'n bosib, dylid darparu PPE addas i'r gyrrwr, e.e. mwgwd wyneb (FRSM)
- Ni chaiff disgyblion o ysgolion eraill gymysgu yn y cerbyd ac eithrio brodyr a chwiorydd.
- Ni chaniateir i bobl fwyta nac yfed yn y cerbyd
- Mae gwisgo gorchuddion wyneb yn orfodol i blant ym mlwyddyn 7 ac uwch ar gludiant ysgol penodedig. Mae gwisgo gorchuddion wyneb gan ddisgyblion iau yn benderfyniad i rieni/ofalwyr ei wneud. Nid yw gorchuddion wyneb yn addas i bawb e.e. plant ifanc iawn, y rheini sy'n dioddef o asthma, y rheini â nam ar y clyw, oherwydd gallai gynyddu'r risg o ledaeniad yn anfwriadol.
- Mae'n bwysig bod pawb yn deall bod mesurau eraill, fel gwisgo gorchuddion wyneb yn wirfoddol (lle bo hynny'n briodol); mae golchi dwylo'n gyson a pharchu lle diogel person a glanhau cerbydau'n fwy cyson, i gyd yn helpu i leihau trosglwyddo haint COVID-19
- Bydd disgyblion yn parhau i ddilyn 'Côd Ymddygiad Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol' Cyngor Abertawe.
- Bydd y gyrrwr yn monitro ymddygiad disgyblion ac yn cyfathrebu â disgyblion o'i sedd i gadarnhau ymddygiad da a'r neges cadw pellter cymdeithasol. Cyfathrebir trwy radio llaw'r gyrrwr lle bo hynny'n bosib.
- Dylid dweud wrth y disgyblion i orchuddio'u ceg a'u trwyn â hances neu eu penelin wrth besychu neu disian.
- Dylid darparu lle i storio gwastraff PPE e.e. sachau du yn y cerbydau. Bydd angen cael gwared ar PPE yng nghanolfan gludiant y contractwyr i reoli'r cyfnod dal 72 awr.
- Bydd y gyrrwr yn sicrhau bod awyriad da yn y cerbyd yn ystod y daith.
- Os yw disgybl yn mynd yn sâl yn ystod y daith i'r ysgol, bydd y gyrrwr yn dweud wrth yr ysgol fel y gellir trefnu i'r rhieni ei gasglu. Dylid parhau i gadw pellter cymdeithasol yn yr ysgol lle bynnag y bo modd er mwyn atal ymlediad yr haint. Nid oes angen i staff hunanynysu os ydynt wedi bod yn agos i berson sy'n dangos symptomau Coronafeirws yn y gweithle ac sydd wedi bod yn dilyn mesurau cadw pellter cymdeithasol.
- Os yw disgybl yn mynd yn sâl yn ystod y daith i'r ysgol, gan ddibynnu ar yr amgylchiadau, bydd y gyrrwr yn sicrhau diogelwch y disgybl wrth y man gollwng. Nid oes angen i staff hunanynysu os ydynt wedi bod yn agos i berson sy'n dangos symptomau Coronafeirws yn y gweithle ac sydd wedi bod yn dilyn mesurau cadw pellter cymdeithasol.

## **c. Man gollwng a chodi**

- Bydd contractwr cludiant yr ysgol yn sicrhau y cedwir at drefniadau codi a gollwng yr ysgol.
- Lle bydd nifer o gerbydau wedi'u parcio ar safle'r ysgol er mwyn casglu disgyblion, ni ddylai gyrrwyr/cynorthwyrwyr teithwyr ymgasglu y tu allan i'w cerbydau.

#### d. Glanhau

Bydd contractwr cludiant yr ysgol yn sicrhau bod y cerbyd yn cael ei lanhau'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru:

- Nodi manau risg uchel yn y cerbyd sy'n debygol o gael eu cyffwrdd yn rheolaidd e.e. canllawiau; dolenni drysau, y botwm sy'n agor y drws, gwregysau diogelwch.
  - glanhau/diheintio'r manau 'cyffwrdd' a nodwyd yn amlach. Dylid gwneud hyn o leiaf cyn ac ar ôl pob taith.
  - Glanhau'r cerbyd yn ddyddiol yn unol â'r weithdrefn arferol.
  - Dylid cadw cit i lanhau unrhyw hylif a gollir yn y cerbyd er mwyn cynorthwyo wrth lanhau hylifau corfforol e.e. cyfog
  - Dylid cadw chwistrell/hancesi sychu diheintiol yn y cerbyd.
  - Dylid glanhau pypiau tanwydd cyn ac ar ôl eu defnyddio.
  - Mae'n rhaid glanhau allweddi'r cerbyd cyn ac ar ôl eu trafod.
- Lle bo'n bosib, dylai gweithredwyr cludiant ddefnyddio cynnyrch glanhau a fydd yn lladd feirws COVID-19, fel y rheini sy'n bodloni Safon Brydeinig **BS EN 1276** neu **BS EN 13697**.
  - Bydd y contractwr cludiant ysgol yn sicrhau bod y cerbydau'n cael eu hawyru'n dda ar bob adeg
  - Dylid darparu lle i storio gwastraff PPE e.e. sachau du yn y cerbydau. Bydd angen cael gwared ar PPE yng nghanolfan gludiant y contractwyr i reoli'r cyfnod dal 72 awr.

#### Argyfyngau

- Bydd angen i'r contractwr cludiant adolygu ei weithdrefnau argyfwng ar gyfer ei gerbydau ei hun, gan ystyried risg COVID-19.
- Bydd angen darparu blychau cymorth cyntaf ar bob bws ysgol.
- Dylai staff y contractwyr cludiant fynd â ffonau symudol gyda nhw ar bob adeg.
- Bydd cyflenwad o PPE addas ar gael yn y cerbyd ar bob adeg.

### Arweiniad i Weithredwyr - Gwasanaethau Cludiant Ysgol i Ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (Anghenion Arbennig)

#### 1. Mesurau i osgoi ymlediad COVID-19

- Bydd y contractwr cludiant yn sicrhau ei fod yn dilyn canllawiau'r llywodraeth a bod ei staff yn ymwybodol o'r canlynol:
  - Symptomau COVID-19 ac i gadw llygad am y symptomau hynny a rhai eraill
  - Os oes ganddynt symptomau COVID19 dylent hunanynysu gartref yn unol ag arweiniad lechyd Cyhoeddus Cymru a'r GIG a gwneud cais am brawf PCR yn GOV.UK neu ffonio 119
  - Ar lefel rhybudd sero, nid oes yn rhaid i'r rheini sydd wedi'u brechu'n llawn hunanynysu oni bai eu bod hwy eu hunain yn dechrau dangos symptomau COVID-19
  - Os dônt i gysylltiad â rhywun sydd wedi datblygu symptomau COVID yn yr ysgol/sefydliad addysg neu ar gludiant o'r cartref i'r ysgol, nid oes angen iddynt fynd adref i hunanynysu oni bai eu bod yn datblygu symptomau eu hunain (ac os felly, dylent drefnu prawf) neu os yw'r person symptomatig yn profi'n positif neu os gofynnwyd iddynt wneud hynny drwy wasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu'r GIG
  - Trefniadau gweithdrefnol presennol mewn perthynas â COVID-19 i gludo disgyblion yn ddiogel yn ôl ac ymlaen i'r ysgol
  - Unrhyw ddiweddariadau perthnasol yng nghanllawiau'r llywodraeth neu ICC.
  - Dylid cyfeirio unrhyw bryderon neu ymholiadau gan staff ynghylch cludiant i ddisgyblion i'w reolwr llinell. Mae hyn yn galluogi rheolwyr i adolygu eu hasesiadau risg a rhoi unrhyw newidiadau ar waith i reoli mesurau lle bo angen.
  - Golchi'u dwylo'n rheolaidd gan ddilyn yr arweiniad ar olchi dwylo a gyhoeddwyd eisoes gan ICC, h.y. golchi dwylo am o leiaf 20 eiliad.
- Bydd angen cynnal ei asesiad risg ei hun ac ymgynghori â staff er mwyn nodi'r holl beryglon a risgiau rhagweladwy posib a rhoi mesurau rheoli addas ar waith i leihau'r risg o ledaenu COVID-19 wrth gludo disgyblion ADY yn ôl ac ymlaen i'r ysgol.
- Bydd yn nodi pa PPE y mae ei angen trwy ei asesiadau risg ei hun pan fydd yn cludo disgyblion yn ôl ac ymlaen i'r ysgol a bydd yn darparu'r PPE a nodwyd yn ei asesiad risg.
- Lle bo'n bosib, dylid sicrhau bod yr un gyrwyr a chynorthwywyr teithwyr (yr un tîm) yn gweithio gyda'i gilydd yn hytrach na chymysgu â thimau eraill.
- Rhaid i yrwyr a chynorthwywyr teithwyr wisgo gorchudd wyneb pan fyddant yn y cerbyd ac o'i gwmpas.
- Lle bo'n bosib, bydd angen blaenoriaethu cerbydau mwy o faint ar gyfer cludiant ysgol cymdeithasol ganiatáu pellter cymdeithasol rhwng teithwyr a'r gyrrwr/cynorthwy-ydd teithwyr a rhwng y gyrrwr a'r cynorthwy-ydd teithwyr.
- Bydd angen cadw cofnod/amserlen ysgrifenedig o'r gyrwyr/cynorthwywyr teithwyr a'u cerbyd neilltuedig at ddibenion profi, olrhain a diogelu.
- Bydd yn caniatáu i ddisgyblion awdurdodedig yn unig deithio yn y cerbyd.



- Bydd angen cadw'r amser a dreulir yn rhannu'r cerbyd mor fyr â phosib a bydd angen cynllunio teithiau er mwyn dilyn y llwybr byrraf posib.
- Bydd angen rhoi diweddariadau i'r Tîm Cludiant Ysgol am unrhyw newidiadau i'w asesiad risg COVID-19 a allai effeithio ar ddarpariaeth cludiant i ddisgyblion.
- Ni chaniateir i bobl fwyta nac yfed yn y cerbyd
- Mae gwisgo gorchudd wyneb yn orfodol i ddisgyblion ym mlynnyddoedd 7 ac uwch ar gludiant ysgol penodedig. Mae gwisgo gorchuddion wyneb gan ddisgyblion iau yn benderfyniad i rieni/ofalwyr ei wneud. Ni fydd angen i ddisgyblion ag eithriadau meddygol wisgo gorchuddion wyneb. Nid yw gorchuddion wyneb yn addas i bawb e.e. plant ifanc iawn; y rheini ag anghenion addysgol arbennig neu anabledau e.e. nam ar y clyw. Bydd disgyblion ag ADY dros 11 oed yn cael eu hasesu ar sail unigol i weld a fydd gwisgo gorchuddion wyneb yn briodol ar eu cyfer.

### **a. Yn y cerbyd**

- Er mwyn cynorthwyo i gadw pellter cymdeithasol bydd y cyngor yn gwneud y canlynol:
  - Lle bo'n bosib, bydd angen blaenoriaethu cerbydau mwy o faint ar gyfer cludiant ysgol cymdeithasol ganiatáu pellter cymdeithasol rhwng teithwyr a'r gyrrwr/cynorthwy-ydd teithwyr a rhwng y gyrrwr a'r cynorthwy-ydd teithwyr.
  - Defnyddio cerbydau â theclyn codi yn y cefn e.e. bysus mini, i gludo teithwyr sy'n defnyddio cadeiriau olwyn a bwerir gan fatri, sy'n tueddu i fod yn fwy ac yn drymach na chadeiriau olwyn safonol.
- Ni ddylai cynorthwywyr teithwyr eistedd yn y blaen gyda'r gyrrwr. Dylent eistedd yng nghefn y cerbyd gyda'r disgybl i gyflawni'i rôl ofalu/oruchwylio. Lle nad oes modd cadw pellter cymdeithasol, neu os bydd angen i'r cynorthwy-ydd teithwyr ymyrryd os bydd digwyddiad penodol yn ystod y daith, rhaid iddo wisgo cyfarpar amddiffynnol priodol (PPE) e.e. mwgwd wyneb, menig tafladwy.
- Bydd angen cadw cyflenwad digonol o hylif diheintio dwylo yn y cerbyd. Dylid golchi/diheintio'ch dwylo am o leiaf 20 eiliad.
- Dylid cadw pellter cymdeithasol yn ystod unrhyw ryngweithio rhwng y gyrrwr a'r disgybl yn ystod y daith. Lle na fydd hyn yn bosib a chan ddibynnu ar y sefyllfa, dylid cyfyngu ar yr amser cyswllt neu dylid gwisgo PPE priodol.
- Caiff y disgyblion eu rhoi i eistedd yn sedd gefn y cerbyd a'u diogelu gan wregys diogelwch. Bydd y drefn seddi yn dibynnu ar faint a dyluniad y cerbyd; nifer y rhesi o seddi yn y cerbyd, etc.
- Mae gwisgo gorchuddion wyneb yn orfodol i blant ym mlynnyddoedd 7 ac uwch ar gludiant ysgol penodedig. Rhieni/gofalwyr fydd yn penderfynu a fydd disgyblion iau yn gorfod gwisgo gorchuddion wyneb. Ni fydd angen i ddisgyblion ag eithriadau meddygol wisgo gorchuddion wyneb. Nid yw gorchuddion wyneb yn addas i bawb e.e. plant ifanc iawn, y rheini ag anghenion addysgol arbennig neu anabledau e.e. nam ar y clyw. Bydd disgyblion ag ADY dros 11 oed yn cael eu hasesu ar sail unigol i weld a fydd gwisgo gorchuddion wyneb yn briodol ar eu cyfer.
- Mae'n bwysig bod pawb yn deall bod mesurau eraill, fel gwisgo gorchuddion wyneb yn wirfoddol (lle bo hynny'n briodol); mae golchi dwylo'n gyson a pharchu lle diogel

person a glanhau cerbydau'n fwy cyson, i gyd yn helpu i leihau trosglwyddo haint COVID-19

- Lle bydd angen i'r gyrrwr ymyrryd mewn sefyllfa benodol yn ystod y daith, dylai wisgo PPE priodol.
- Caiff disgyblion sy'n mynd i ysgolion gwahanol eu cludo ar wahân lle bo'n bosib.
- Bydd angen i ddisgyblion eistedd yn ardal eu grŵp oedran lle bo'n bosib, ar wahân i frodyr a chwiorydd, a all eistedd gyda'i gilydd.
- Bydd staff yn caniatáu i ddisgyblion awdurdodedig yn unig deithio yn y cerbyd fel bod manylion cywir y disgyblion sy'n teithio ynddo ar gael at ddibenion monitro ac olrhain. .
- Bydd disgyblion yn parhau i ddilyn 'Côd Ymddygiad Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol' Cyngor Abertawe.
- Dylid dweud wrth y disgyblion i orchuddio'u ceg a'u trwyn â hances neu eu penelin wrth besychu neu disian.
- Ni chaniateir i bobl fwyta nac yfed yn y cerbyd.
- Bydd y gyrrwr yn sicrhau bod awyriad da yn y cerbyd yn ystod y daith.
- Os yw disgybl yn mynd yn sâl yn ystod y daith i'r ysgol, bydd y gyrrwr yn dweud wrth yr ysgol fel y gellir trefnu i'r rhieni ei gasglu. Os yw disgybl yn mynd yn sâl yn ystod y daith adref, bydd y gyrrwr yn dweud wrth y rhiant. Gan ddibynnu ar yr amgylchiadau, dylid parhau i gadw pellter cymdeithasol lle bynnag y bo modd er mwyn atal ymlediad yr haint neu os nad yw hyn yn bosib, dylai staff wisgo PPE addas e.e. menig tafladwy, ffedog, mygydau llawfeddygol sy'n gwrthsefyll hylif (FRSM).

## **b. Man gollwng a chodi**

- Wrth godi'r plentyn gartref, bydd y gyrrwr/cynorthwy-ydd teithwyr yn gallu cadarnhau statws iechyd COVID y disgybl a'r teulu. Os yw'r disgybl yn dangos symptomau COVID, bydd y gyrrwr yn dweud wrth y rhiant a'r ysgol nad yw'n gallu'i gludo.
- Ar gyfer codi a gollwng gartref, lle y bo'n bosib, bydd rhieni'n gyfrifol am sicrhau bod eu plentyn yn mynd i mewn ac yn dod allan o'r cerbyd yn ddiogel.
- Y gyrrwr/cynorthwy-ydd teithwyr sy'n gyfrifol am osod cadeiriau olwyn yn ddiogel yn y cerbyd wrth i'r plentyn ddod i mewn iddo a'i adael.
- Os bydd angen i yrrwr neu gynorthwy-ydd teithwyr osod seddau car neu seddi codi, bydd angen glanhau'r arwynebeddau caled cyn eu gosod ac ar ôl eu defnyddio. Dylid gwisgo cyfarpar PPE, e.e. mwgwd wyneb, menig tafladwy
- Wrth godi'r plentyn a'i ollwng yn yr ysgol, bydd angen i'r cynorthwy-ydd teithwyr drosglwyddo neu gasglu'r plentyn y uniongyrchol i/oddi wrth aelod o staff ar safle'r ysgol. Gan ddibynnu ar y cymorth sydd ei angen ar y disgybl e.e. dal ei law, gwrthio'r gadair olwyn, bydd angen sicrhau bod dwylo'n lân cyn codi a gollwng y plentyn. Rhaid golchi'r dwylo am o leiaf 20 eiliad; neu mae defnyddio hylif diheintio dwylo yn effeithiol. Bydd yr un hylendid dwylo'n berthnasol hyd yn oed os yw darparwr y cludiant yn rhoi menig tafladwy i'w staff.
- Lle y bo'n bosib, bydd gyrrwyr, cynorthwywyr teithwyr a staff ysgol yn cadw pellter cymdeithasol wrth godi'r plentyn a'i ollwng yn yr ysgol i leihau cyswllt rhwng oedolion. Lle nad yw hyn yn bosib, rhaid gwisgo PPE, e.e. mwgwd wyneb

- Lle y bo'n bosib, dylid annog disgyblion i gau ac agor eu gwregys diogelwch eu hunain. Lle nad yw hyn yn bosib, er enghraifft, wrth gludo disgyblion ADY ag anghenion cymhleth neu y mae angen cymorth arnynt i fynd i mewn i'r cerbyd neu gau gwregysau diogelwch, bydd y cynorthwy-ydd teithwyr yn cynorthwyo'r disgybl ac yn gwisgo PPE priodol
- Dylid cyfathrebu cynlluniau teithio diwygiedig rhwng ysgolion, y Gwasanaeth Cludiant Ysgol a'r contractwr cludiant yn rheolaidd.
- Bydd contractwr cludiant yr ysgol yn sicrhau y cedwir at drefniadau codi a gollwng yr ysgol.

## **ch. Glanhau**

Bydd contractwr cludiant yr ysgol yn sicrhau bod y cerbyd yn cael ei lanhau'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru:

- glanhau/diheintio'r manau 'cyffwrdd' a nodwyd yn amlach. Dylid gwneud hyn cyn ac ar ôl pob taith os nad yn amlach. Dylai'r gyrrwr olchi/ddiheintio'i ddwylo'i hun ar ôl glanhau.
- Dylid glanhau'r cerbyd yn drylwyr gyda chynnyrch glanhau arferol ar ddiwedd bob shift/diwrnod gwaith.
- Dylid cadw cit i lanhau unrhyw hylif a gollir yn y cerbyd er mwyn cynorthwyo wrth lanhau hylifau corfforol e.e. cyfog
- Dylid cadw chwistrell/hancesi sychu diheintiol yn y cerbyd.
- Dylid glanhau pypiau tanwydd cyn ac ar ôl eu defnyddio.
- Mae'n rhaid glanhau allweddî'r cerbyd cyn ac ar ôl eu trafod.
- Bydd y contractwr cludiant ysgol yn sicrhau bod y cerbydau'n cael eu hawyru'n dda ar bob adeg.
- Dylid darparu lle i storio gwastraff PPE e.e. sachau du yn y cerbydau. Bydd angen cael gwared ar PPE yng nghanolfan cludiant y contractwyr i reoli'r cyfnod dal 72 awr.
- Lle bo'n bosib, dylai gweithredwyr cludiant ddefnyddio cynnyrch glanhau a fydd yn lladd feirws COVID-19, megis rhai sy'n bodloni safon Brydeinig BS EN 1276 neu BS EN 13697.

## **Argyfyngau**

- Bydd angen i'r contractwr cludiant adolygu'r gweithdrefnau argyfwng ar gyfer ei gerbydau ei hun, gan ystyried risg COVID-19.
- Mae blychau cymorth cyntaf ar gael ar bob bws ysgol.
- Dylai staff y contractwyr cludiant fynd â ffonau symudol gyda nhw ar bob adeg.
- Bydd cyflenwad o PPE addas ar gael yn y cerbyd ar bob adeg.